CYFARFOD BWRDD RHEOLI ETHOLIADOL COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 10 EBRILL 2026 TRWY MICROSOFT TEAMS

Yn bresennol: Karen Jones (Cadeirydd); Eifion Evans (Dirprwy Gadeirydd); Bethan Williams Price (Aelod); Beverly Owen (Aelod); Neal Cockerton (Aelod); Paul Orders (Aelod); Frances O'Brien (yn dirprwyo ar ran Martin Nicholls); Ian Bancroft (Comisiynydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC)).

Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol: Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Michal Harris-Edwards (Swyddog Cymorth Busnes).

Ymddiheuriadau: Martin Nicholls

Amser Dechrau: 10:00
Amser Gorffen: 10:22

Sesiwn gaeëdig ar gyfer aelodau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) a swyddogion

1. **Materion byw**

1.1. **Esboniodd** y Cadeirydd y syniad wrth wraidd cynnal sesiynau caeëdig rheolaidd i'r Bwrdd.

1.2. **Nodwyd** y bu pryderon sylweddol ynglŷn â geiriad y gorchymyn cynnal etholiadau yn gysylltiedig â threfn pleidiau gwleidyddol ar y papur pleidleisio ac y bydd angen i hyn gael ei godi gyda Llywodraeth Cymru cyn etholiadau yn y dyfodol.

1.3. **Nodwyd** y bu rhai mân broblemau gyda'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP).

1.4. **Nodwyd** bod nifer fach o ymgeiswyr wedi mynd at y Post Brenhinol i gael cod cymeradwyo ar gyfer eu hanerchiad etholiad, gan nodi nad oeddent eisiau ei bostio â llaw. O ganlyniad, gwrthododd y Post Brenhinol roi cod. Cynghorwyd yr ymgeiswyr hyn gan swyddogion i ddilyn proses y Post Brenhinol a chyhoeddi nifer fach o anerchiadau etholiad i gael y cod.

1.5. **Nodwyd** bod y BRhE wedi cael cod cymeradwyo gan y Post Brenhinol ar gyfer anerchiad etholiad a oedd yn broblemus ym marn y BRhE o ganlyniad i'r iaith a ddefnyddiwyd. Aeth swyddogion yn ôl at y Post Brenhinol, nad oedd wedi ceisio cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r daflen. Ceisiodd y Post Brenhinol gyngor cyfreithiol wedi hynny a gofynnodd i'r ymgeisydd ddiwygio un llinell. Mae swyddogion yn pryderu ynglŷn â'r anerchiad o hyd, ac maen nhw bellach yn ceisio cyngor gan siambrau arbenigol, a fydd yn adolygu unrhyw achosion o'r fath cyn eu cyhoeddi ar y WEIP.

1.6. **Nododd** y Cadeirydd os yw'r Post Brenhinol wedi cymeradwyo anerchiad etholiad, y dylem ei gyhoeddi. Mae'r rheoliadau'n amddiffyn y BRhE rhag her gyfreithiol.

1.7. **Nodwyd** nad oes gan y BRhE bersonoliaeth gyfreithiol, ac felly y byddai unrhyw gamau cyfreithiol a gymerir yn erbyn y Bwrdd yn erbyn CDFfC, mewn gwirionedd.

1.8. **Nodwyd** bod angen datblygu proses, gyda siart lif glir sy'n dangos pwy sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad i gyhoeddi.

1.9. **Nodwyd** bod rhaid i ni baratoi ar gyfer yr etholiadau lleol y flwyddyn nesaf, gan nad yw'r Post Brenhinol yn ymwneud â chymeradwyo anerchiadau etholiad ar eu cyfer. **Nodwyd** y dylai hyn gynnwys newid i'r ddeddfwriaeth.

1.10. **Nodwyd** nad yw'r anerchiad etholiad sy'n defnyddio iaith sarhaus wedi cael ei anfon atom gan yr ymgeisydd, pryd y byddem yn ei brosesu ar gyfer ei gyhoeddi. Diben hyn yw paratoi ar gyfer hynny.

1.11. **Nodwyd** bod gwall yn y system o ran arwyddluniau pleidiau. Mae'r gwall wedi'i gywiro, bellach.

1.12. **Nodwyd** y bu cyfarfod rhwng y BRhE a'r Post Brenhinol ynglŷn ag adroddiadau diweddar bod parseli'n cael blaenoriaeth. Mae'r Post Brenhinol wedi dweud na fydd unrhyw broblemau o ran yr etholiad.

1.13. **Nodwyd** bod arweiniad y Comisiwn Etholiadol i arsylwyr etholiad wedi newid o ganlyniad i bleidleisio teuluol. Nodwyd bod rhaid i arsylwyr adrodd yn y fan a'r lle bellach. **Nodwyd** bod Gwirfoddolwyr Democratiaeth yn dweud nad yw hynny'n cyd-fynd â safonau etholiadau rhyngwladol. **Nodwyd** hefyd y bydd 30-40 o arsylwyr yn bresennol yng Nghymru, gydag un o leiaf ym mhob etholaeth.

1.14. **Nodwyd** y byddai'n well gan Arsylwyr Democratiaeth gysylltu â'r tîm etholiad ei hun, ac nid Swyddogion Llywyddu, petaent yn gweld unrhyw faterion ar ddiwrnod yr etholiad.

1.15. **Nodwyd** y bydd y WEIP yn bodloni'r isafswm gofynion a amlinellir yn y ddeddfwriaeth.

1.16. **Nodwyd** y bydd angen i fwy o waith gael ei wneud ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol.

1.17. **Nodwyd** bod nodiadau ymarfer wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer yr etholiad.

1.18. **Nodwyd** y bu cynnig tiwtora gan y Coleg Cymraeg, ond nad oes neb wedi manteisio arno.

1.19. **Nodwyd** nad oes angen i ni gael sicrwydd gan y Swyddogion Canlyniadau ynglŷn â chyhoeddi'r nodiadau ymarfer hyn – mater i'r Swyddogion Canlyniadau ydyw, a'r cyfan y mae'r BRhE yn ei wneud yw darparu cysondeb.